

Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU / HRH THE PRINCE OF WALES

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Nas Cadarnhawyd a gynhaliwyd yng Nghymdeithas Feddygol Llundain, 11 Chandos Street, Cavendish Square, Llundain W1G 9EB, a 6.00yh ar nos Fawrth 12 Mai 2015, gyda'r Llywydd, yr Athro Prys Morgan yn y gadair a 24 o aelodau yn bresennol.

1. Derbyniwyd **ymddiheuriadau** gan saith aelod.
2. **Cofnodion y cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2014**
Cylchredwyd y rhain ac, ar gynnig Thomas Charles-Edwards, a eiliwyd gan John Elliott, fe'u derbyniwyd gan y cyfarfod.
3. **Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2014**
Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Mygedol yr Adroddiad Blynyddol oedd wedi ei gylchredeg. Ar gynnig Ceridwen Roberts, a eiliwyd gan Jenkin Thomas, derbyniwyd yr adroddiad gan y cyfarfod.
4. **Adroddiad Blynyddol y Trysorydd Mygedol**
Cyflwynodd y Trysorydd Mygedol y Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2014, wedi eu hardystio gan yr Archwilwyr Annibynnol, yr Athro Richard Lewis o Lewis & Co. Cyfrifyddion Siartredig.

Mewn ymateb i gwestiwn o'r llawr, adroddodd y Trysorydd Mygedol bod tua 600 o unigolion a 100 o sefydliadau yn aelodau o'r Gymdeithas ar hyn o bryd.

Cymerodd y cyfarfod sylw o adroddiad gan Ceridwen Roberts mai dymuniad y Cyngor oedd cynyddu nifer yr aelodau ac y byddai'n cychwyn ar y gwaith yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn cyflawni hyn.

Ar gynnig Lynn Williams a eiliwyd gan Thomas Charles-Edwards, derbyniwyd Adroddiad Blynyddol y Trysorydd Mygedol.

5. Etholiadau

5.1. Llywydd

Yn unfrydol a chyda chanmoliaeth, ar gynnig Peter Jeffreys, a eiliwyd gan Jenkin Thomas, ail-etholwyd yr Athro Prys Morgan yn Llywydd y Gymdeithas am y flwyddyn i ddod.

5.2. Is-Lywyddion

Nodwyd gyda thristwch gan y cyfarfod marwolaethau diweddar pedwar o Is-Lywyddion y Gymdeithas: Trefor M Owen, yr Athro R Geraint Gruffydd, Emlyn I Griffith a'i Anrhydedd Dewi Watkin Powell (cyn-Gadeirydd Cyngor y Gymdeithas).

Gwnaed y sylw bod rhestr yr Is-Lywyddion yn cynnwys Canghellor Iâl, ond gan nad oedd y fath swydd yn bodoli, roedd y Cyngor wedi penderfynu argymhell y dylid ei ddiddymu o'r rhestr.

Ar gynnig Gwenda Sippings, a eiliwyd gan John Elliott, ac eithrio Canghellor Iâl, cytunodd y cyfarfod i ail-ethol yr Is-Lywyddion presennol.

5.3. Aelodau'r Cyngor

Ar gynnig Huw Wynne-Griffith, a eiliwyd gan Helen Fulton, ail-etholwyd Anne Arnold, Elinor Talfan Delaney, Peter Jeffreys, Arwyn Lloyd Hughes, Ceridwen Roberts a Rhian Medi Roberts i wasanaethu ar y Cyngor am dair blynedd arall.

Ar gynnig Jenkin Thomas, a eiliwyd gan Arwyn Lloyd Hughes, apwyntiwyd Robert John a Lynn Williams, a oedd, yn flaenorol, yn aelodau cyfetholedig y Cyngor, yn aelodau o'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd 2015-2018.

6. Archwiliwr Annibynnol

Ar gynnig Ceridwen Roberts, a eiliwyd gan John Elliott, apwyntiwyd yr Athro Richard Lewis o Lewis & Co fel archwiliwr annibynnol y cyfrifon am y flwyddyn i ddod.

7. Arsyllwadau a dderbyniwyd gan Aelod o'r Gymdeithas

Adroddodd yr Ysgrifennydd Mygedol:

- (i) bod arsyllwadau ysgrifenedig wedi eu derbyn gan Aelod ynghylch nifer o faterion, gan gynnwys pryderon ynghylch y nifer o ddarlithoedd oedd wedi eu hatgynhyrchu yng nghyfrau diweddar *Trafodion* y Gymdeithas, a'r ffaith nad oedd papurau ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol wedi eu cylchredeg ar gopi caled, ond yn hytrach, ar gael i'w lawrlwytho;
- (ii) ar ran y Gymdeithas, anfonwyd at yr Aelod ymatebion ysgrifenedig, yn delio â'r amryw bryderon a oedd wedi eu codi, gan yr Ysgrifennydd Aelodaeth, y Trysorydd a Golygydd y *Trafodion*, a oedd wedi gwneud y sylw, *inter alia*, bod podlediadau o lawer o'r darlithoedd diweddar ar gael trwy wefan y Gymdeithas ac y dylai fod yn bosibl i Aelodau heb gyfrifiadur gartref i lawrlwytho'r papurau mewn llyfrgelloedd cyhoeddus;
- (iii) roedd yr Aelod wedi gofyn bod ei bryderon yn cael eu gwyntyllu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Adroddodd y Golygydd ymhellach:

- (i) yn ogystal â thestun y darlithoedd a draddodwyd yn ystod y flwyddyn, fel cylchgrawn academaidd, roedd y *Trafodion* hefyd yn cynnwys erthyglau ysgolheigaidd, wedi eu hadolygu gan gyfoedion, oedd wedi eu cyflwyno i gael eu hystyried;
- (ii) er ei fod yn bolisi bod y darlithoedd yn cael eu cynnwys, yn awtomatig, yn y cylchgrawn ar gyfer y flwyddyn berthnasol, roedd hyn ond yn bosibl pe bai'r siaradwr yn darparu'r testun, ac er bod y Golygydd yn cysylltu â phob siaradwr i ofyn am gopi o'r testun, nid oedd pob siaradwr am gyhoeddi eu papurau yn y *Trafodion*

(neu mewn rhai achosion, o gwbl) ac roedd eraill ddim yn ymateb i'r Golygydd neu'n ymateb yn rhy hwyr;

- (iii) byddai'r Golygydd a'r Ysgrifennydd Mygedol newydd yn archwilio ffyrdd y gellir perswadio'r siaradwyr o werth, i'r Gymdeithas a'r Aelodau, cyhoeddi'r darlithoedd yn y *Trafodion* hyd yn oed yn fwy eglur nag yn bresennol ac y gobeithir y byddai hyn yn arwain at ganran uwch o ddarlithoedd yn cael eu cyhoeddi yn y blynyddoedd i ddod.

Gwnaeth y cyfarfod y sylw, yn dilyn yr adroddiadau uchod, y bydd yr Ysgrifennydd Mygedol newydd yn anfon at yr aelod perthnasol i roi gwybod iddo bod ei sylwadau wedi eu gwyntyllu yn ystod y cyfarfod fel yr oedd wedi dymuno.

8. Diolch

Cymerodd y cyfarfod sylw o adroddiad gan y Llywydd bod Peter Jeffreys wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn Ysgrifennydd Mygedol ac y byddai Dr Lynn Williams yn ei ddilyn yn y swydd yn ffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod presennol.

Ar ran y Cyngor a'r Gymdeithas, diolchodd y Llywydd i Mr Jeffreys am ei gyfraniad sylweddol i'r Gymdeithas yn ystod ei gyfnod fel Ysgrifennydd Mygedol ers 2009.

Diolchodd y Llywydd i bawb, yn enwedig y Swyddogion, oedd wedi cynorthwyo gwaith y Gymdeithas yn wirfoddol yn ystod y flwyddyn.

Dr Lynn Williams
Ysgrifennydd Mygedol